

CARDIFF
UNIVERSITY

PRIFYSGOL
CAERDYDD

School of Medicine

Ysgol Meddygaeth

Canolfan Efelychu a Sgiliau Clinigol

www.caerdydd.ac.uk/meddygaeth





Canolfan Efelychu a Sgiliau Clinigol

Mae'r Ganolfan Efelychu a Sgiliau Clinigol yn adnodd modern lle gall myfyrwyr feithrin sgiliau ymarferol ac ennill profiad gwerthfawr o sefyllfaoedd go iawn mewn ysbyty, a hynny mewn amgylchedd efelychiadol a diogel. Yn y ganolfan, mae modelau realistig, sy'n gywir yn anatomiaidd i helpu wrth addysgu ac ymarfer ystod eang o sgiliau clinigol gweithdrefnol, a theulu o ddoliau efelychol manwl gywir.

Mae gan y Ganolfan Efelychu a Sgiliau Clinigol dîm cymorth ymrwymedig sy'n rhoi'r seilwaith ar gyfer rhaglen addysgu Sgiliau Clinigol o bwys. Mae'r tîm yn gweithio'n galed i roi'r profiad gorau posibl i fyfyrwyr sy'n mynd yno i gael eu haddysgu, ac maent yn ymfalchïo yn y sylwadau cadarnhaol gan fyfyrwyr yn ogystal â staff y gyfadran sy'n addysgu yn y ganolfan. Yn ein cyfadran addysgu sgiliau clinigol mae cyfoeth o gefndiroedd amlddisgyblaethol, sy'n amrywio o feddygon, nyrsys a pharafeddygon.



E-ddysgu

Rhaid i fyfyrwyr astudio modiwlau e-ddysgu ar-lein cyn mynd i sesiynau addysgu sgiliau clinigol sydd wedi'u hamserlennu. Mae'r modiwlau deniadol hyn, sy'n hawdd i'w dilyn, yn cynnig elfennau damcaniaethol allweddol y weithdrefn glinigol, cyn mynd i'r sesiwn ymarferol.



Dysgu Hunangyfeiriedig

Rydym wedi creu man dysgu hunangyfeiriedig (SDL) yn y Ganolfan Sgiliau Clinigol sydd ar gael i fyfyrwyr rhwng:

Dydd Llun	09:00-16:00
Dydd Mawrth	09:00-16:00
Dydd Mercher	09:00-15:00 <i>"Tiwtor yn y Tŷ"</i>
Dydd Iau	09:00-16:00
Dydd Gwener	09:00-16:00

Gall myfyrwyr ddefnyddio'r man hwn i ymarfer y sgiliau maent wedi'u dysgu, er mwyn cadarnhau eu gwybodaeth a magu hyder yn eu galluoedd mewn amgylchedd gwarchoddedig. Mae'n ddiwrnod 'Tiwtor yn y Tŷ' bob dydd Mercher, pan fydd un o'n cyfadrannau addysgu'n cefnogi myfyrwyr i ymarfer eu sgiliau Dysgu Hunangyfeiriedig.

Mae'r sgiliau sydd ar gael i'w hymarfer yn y man dysgu hunangyfeiriedig yn cynnwys: Pigjadau IM/IV, archwiliad o'r pelfis benywaidd, tyllu'r meingefn, archwiliad rhefrol, fflebotomi, gwrthfotigion a thrwytho IV, cathetreiddio'r wrethra, pwytho, samplu gwaed prifwythiennol, archwiliad o'r llygaid a'r clustiau, archwiliad o'r fron a gofalu am glwyfau. Mae llawer mwy i'w gael ar gais.



Cadw lle yn y Ganolfan Efelychu a Sgiliau Clinigol

Mae'r Ganolfan yn cynnwys amrywiaeth o ystafelloedd addysgu amlbwrpas y gellir eu haddasu'n rhwydd ar gyfer anghenion y sesiynau addysgu.

Mae'r hyblygrwydd hwn, a'r ffaith fod cyfleusterau clyweledol a chyfrifiadurol o'r radd flaenaf ar gael, yn cynnig cyfle delfrydol i sefydliadau preifat neu bartneriaid eraill fel y GIG gynnal cyrsiau ar gyfer gweithgareddau addysgol eraill. Er bod tâl yn cael ei godi ar sefydliadau y tu allan i raglen MBCh yr Ysgol Meddygaeth yn ôl cyfradd haenog, rydym yn croesawu'r rheini a allai fod â diddordeb mewn defnyddio'r cyfleusterau.

Cysylltwch â'r Ganolfan Efelychu a Sgiliau Clinigol i gael manylion:

Ysgol Meddygaeth
Canolfan Efelychu a Sgiliau Clinigol
3ydd Llawr, Adeilad Cochrane
Campws y Mynydd Bychan
Caerdydd
CF14 4YU

Ffôn: 029 2068 8034

Ebost: clinicalskillscentre@caerdydd.ac.uk

